AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU

Deddf Safonau Gofal 2000

ADRODDIAD AROLYGU
Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol

Aderyn
Penperlleni
Pont-y-pŵl
NP4 0AH

Dyddiad yr Arolygiad

6 Tachwedd 2008

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan, Caerffili,
CF83 3ED

Dim ond yn ei gyfanrwydd y ceir atgynhyrchu'r Adroddiad hwn. Ni cheir ei atgynhyrchu'n rhannol nac ar ffurf gryno ac ni cheir dyfynnu ohono heb ganiatâd ysgrifenedig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

ADRODDIAD AROLYGU	
Digwyddiad Arolygu:	**Mis Ebrill 2008 hyd at fis Mawrth 2009**

Darpariaeth Gofal Iechyd:	Ysbyty Annibynnol Aderyn
Rhif ffôn cyswllt:	01873 881221
Darparwr Cofrestredig:	Partnerships in Care
Unigolyn Cyfrifol:	Steven Woolgar
Rheolwr Cofrestredig:	Barrie Crosbie
Nifer y lleoedd:	17
Categori:	Mae'r sefydliad wedi'i gofrestru ar gyfer dynion 18 oed a hŷn: a) sydd ag anhwylder meddwl, b) a allai fod yn agored i gael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, c) sydd wedi cael eu hasesu fel bod angen gwasanaeth adsefydlu seiciatrig
Dyddiad y cofrestriad cyntaf:	2001 – Gwasanaeth Anafiadau i'r Ymennydd Beechwood 20 Hydref 2006 – Aderyn
Dyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn:	6 Mai 2009
Dyddiad cyhoeddi'r adroddiad blaenorol:	14 Chwefror 2008
Arolygydd Arweiniol:	Helen Nethercott
Arolygwyr/Cynghorwyr Arbenigol:	Frank Longbottom – Arolygydd AGIC

CANLLAWIAU AROLYGU

RHAGARWEINIAD

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn dilyn arolygiad o'r gwasanaeth a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) dan ddarpariaethau Deddf Safonau Gofal 2000 a'r Rheoliadau cysylltiedig.

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r broses arolygu ac yn cofnodi'r canlyniadau. Mae'r adroddiad wedi'i rannu yn naw rhan benodol, gan adlewyrchu meysydd cyffredinol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae casgliad cyffredinol ynglŷn â chydymffurfiad y gwasanaeth â Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 wedi ei gofnodi.

Mae gan Arolygwyr AGIC yr hawl i fynd i mewn i wasanaethau gofal iechyd a chynnal arolygiad ohonynt ar unrhyw adeg. Ar adeg pob digwyddiad neu gyfnod arolygu cynhelir ymweliad/au â'r gwasanaeth yn ogystal ag ystod o weithgareddau eraill megis hunanasesu a'r defnydd o holiaduron. Mae AGIC yn ceisio canfod y modd gorau o gael gwybod am brofiadau'r cleifion, eu perthnasau/cynrychiolwyr a'r staff a gyflogir o fewn y gwasanaeth.

Gellid hefyd ymweld â'r gwasanaeth ar unrhyw adeg arall yn ystod y flwyddyn i ymchwilio i gwynion ac ymateb i newidiadau yn y gwasanaeth. Drwy arolygu, mae AGIC yn gallu bodloni ei hun bod cyfiawnhad dros barhau i gofrestru'r gwasanaeth. Mae hefyd yn fodd o sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â:

- Deddf Safonau Gofal 2000 a'r Rheoliadau cysylltiedig gan ystyried y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

- Datganiad o Ddiben y gwasanaeth ei hun

Rhaid i ddarllenwyr gofio mai bwriad yr adroddiad yw adlewyrchu canfyddiadau'r digwyddiad arolygu penodol. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser; weithiau bydd gwasanaethau yn gwella ac weithiau byddant yn dirywio. Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol hefyd yn fanwl iawn ac mae rhai ohonynt yn dechnegol eu natur ac nid yw AGIC yn edrych yn fanwl ar bob agwedd ar y safonau hyn ar bob ymweliad.

Mae'r adroddiad yn nodi'n eglur y gofynion a wnaed gan AGIC. Mae hyn yn cynnwys y rhai hynny a wnaed gan AGIC ers yr adroddiad arolygu diwethaf sydd bellach wedi eu bodloni, gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni ac unrhyw ofynion newydd yn dilyn yr arolygiad diweddar hwn.

Dylai darllenwyr nodi bod y gwasanaeth wedi cydymffurfio'n briodol ag unrhyw ofynion a wnaed yn adroddiad y llynedd nad ydynt wedi'u rhestru yn rhai sydd heb eu bodloni.

Os oes gennych bryderon am unrhyw beth sy'n codi o ganfyddiadau'r Arolygydd, efallai y byddwch yn dymuno eu trafod ag AGIC neu'r person cofrestredig.

Mae'n ofynnol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sicrhau bod adroddiadau ar gyfleusterau cofrestredig ar gael i'r cyhoedd. Mae'r adroddiad yn ddogfen gyhoeddus a bydd ar gael ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: http://www.hiw.org.uk/

TROSOLWG CYFFREDINOL O'R LLEOLIAD GOFAL IECHYD

Mae Aderyn yn ysbyty annibynnol â 17 wely, sy'n darparu gwasanaethau adsefydlu i gleifion ag anhwylder meddwl. Mae wedi'i leoli wrth ymyl yr A4042 ym mhentref Penperlleni ger Pont-y-pŵl yn y de. Mae modd cyrraedd yno ar y gwasanaeth bws lleol ac mae traffyrdd yr M50 a'r M4 o fewn cyrraedd rhwydd.

Darperir y gwasanaeth mewn tŷ mawr ar ei ben ei hun o fewn 7 erw o dir coediog, deniadol. Mae digon o le parcio i ymwelwyr a staff o flaen y brif fynedfa ac i'r naill ochr iddi. Ceir bwthyn y tu ôl i'r adeilad, sy'n cynnwys ystafelloedd ar gyfer ymwelwyr, a chynnal cyfarfodydd a gweithgareddau.

Roedd y sefydliad wedi'i gofrestru yn flaenorol i ddarparu gwasanaeth i bobl ag anafiadau i'r ymennydd, a hynny gan yr un cwmni, ond ers 20 Hydref 2006 mae'r cofrestriad wedi'i amrywio i ddarparu gwasanaeth i ddynion 18 oed a hŷn:

a) sydd ag anhwylder meddwl,
b) a allai fod yn agored i gael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983,
c) sydd wedi cael eu hasesu fel bod angen gwasanaethau adsefydlu seiciatrig.

Nid yw'r sefydliad wedi'i gofrestru i ddarparu triniaeth na gofal i gleifion sydd:

a) angen triniaeth neu ofal mewn amgylchiadau lle maent wedi'u diogelu,
b) ag anableddau dysgu dwys neu gymhedrol,
c) mewn cyfnod cythryblus aciwt o'u hanhwylder meddwl,
ch) â hanes diweddar o ddianc a gwrthod cadw at y rheolau,
d) wedi'u cael yn euog o droseddau rhywiol,
dd) mewn cyfnod aciwt o salwch meddygol neu sydd â salwch angheuol ac angen triniaethau meddygol dwys.

Partnerships in Care sy'n berchen ar Aderyn ac mae'n gweithredu fel ward allanol i Ysbyty Llanarth Court. Mae Ysbyty Llanarth Court wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gofal a thriniaeth seiciatrig mewn amgylcheddau diogelwch canolig, diogelwch isel ac adsefydlu. Mae Aderyn wedi'i gofrestru fel sefydliad ar wahân gan ei fod oddeutu 7 milltir o brif adeilad yr ysbyty. Mae strwythurau rheoli a llywodraethu Aderyn yn rhan o'r strwythurau a'r trefniadau ar gyfer Ysbyty Llanarth Court.

Mae Aderyn hefyd wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth dydd i uchafswm o 2 o gleifion o Ysbyty Llanarth Court yn rhan o'u rhaglen adsefydlu a'r broses o baratoi ar gyfer gadael gofal.

Roedd 15 o gleifion yn yr ysbyty ar ddiwrnod yr arolygiad, ac roedd pob un ohonynt wedi'u cadw dan ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Roedd y sefydliad wedi'i adnewyddu yn ddiweddar ac yn sgîl hynny roedd yr amgylchedd ym mhob man yn olau a glân, a'r gwaith addurno yn daclus.

Y FETHODOLEG A DDEFNYDDIWYD YN YR AROLYGIAD HWN

Cynhaliwyd y brif broses arolygu dros gyfnod o ddiwrnod, gyda'r Rheolwr Arolygiadau a chynghorydd arbenigol yn casglu gwybodaeth. Cymerodd aelodau o'r tîm staff ran yn y broses ac roedd eu hagwedd yn agored a phroffesiynol.

Casglwyd gwybodaeth trwy ddadansoddi dogfennau a ddarparwyd iddynt cyn ac yn ystod yr arolygiad, trafod â'r staff, mynd o amgylch y sefydliad, a thrafod â nifer o'r cleifion a oedd yn bresennol.

Archwiliwyd nifer o'r cynlluniau gofal. Roedd yr agweddau eraill ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn ystod yr arolygiad yn cynnwys arsylwi'r gofal a'r arferion eraill yn uniongyrchol.

Edrychwyd ar y safle a'r tir ei hun, ac archwiliwyd polisïau, gweithdrefnau, taflenni gwybodaeth, tystysgrifau cynnal a chadw a chofnodion. Gyda chytundeb a gwahoddiad y preswylwyr, edrychwyd ar gyflwr cyffredinol yr ystafelloedd unigol. Edrychwyd hefyd ar y mannau cymunedol, y golchdy, yr ystafelloedd ymolchi a'r tai bach.

Arolygwyd y safle yn unol â Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 yn bennaf, yn ogystal â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol craidd ar gyfer gwasanaethau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol. Ategwyd y safonau hyn hefyd gan safonau gwasanaeth penodol ar gyfer sefydliadau iechyd meddwl, gan gynnwys y safonau ar gyfer sefydliadau lle ceir cadw pobl dan ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983.

GWYBODAETH A DDARPERIR

Canfyddiadau'r Arolygydd:
Datganiad o Ddiben Adolygwyd a diweddarwyd y datganiad o ddiben ym mis Rhagfyr 2008. Mae'n rhoi disgrifiad cynhwysfawr o'r gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion. **Canllaw i Gleifion** Paratowyd fersiwn hawdd ei darllen a fersiwn sain o'r wybodaeth er mwyn cynorthwyo cleifion a gofalwyr i ddeall y gwasanaeth a ddarperir. **Hysbysfyrddau** Gwelwyd bod amrywiaeth o wybodaeth yn cael ei harddangos ar hysbysfyrddau wrth y fynedfa ac ym mhob rhan o'r sefydliad. **Trefniadau ymweld** Roedd y trefniadau ymweld wedi'u nodi'n eglur yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
0607/1 Rhaid cael fersiwn hawdd ei ddarllen o'r wybodaeth berthnasol ar gyfer cleifion a'u teuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol gyda llythrennedd ac i ddeall deunydd ysgrifenedig.	1 Medi 2007	Safon C1 Rheoliad 15(4)b

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:
Dim

ANSAWDD TRINIAETH A GOFAL

Canfyddiadau'r Arolygydd:

Llywodraethu Clinigol

Roedd strategaeth llywodraethu clinigol ar gael, a systemau a phrosesau wedi'u hen sefydlu ar gyfer llywodraethu clinigol yn Aderyn, fel adran o Ysbyty Llanarth Court. Paul Hendey, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol, sy'n arwain ym maes llywodraethu clinigol, ac mae'n cydlynu gweithgareddau nifer o is-grwpiau llywodraethu clinigol. Mae tîm uwch reolwyr y sefydliad yn gweithredu fel grŵp llywio ar gyfer gweithgarwch llywodraethu clinigol.

Archwilio

Roedd gan y sefydliad bolisi ar gyfer archwilio clinigol. Gwelwyd rhaglen archwilio i fynd i'r afael â gofynion y safonau gofynnol cenedlaethol.

Polisïau, gweithdrefnau a gwybodaeth i staff

Roedd ystod o bolisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae pob un yn nodi rhif y polisi, dyddiad yr adolygiad diwethaf a dyddiad yr adolygiad nesaf na ddylai fod yn fwy na 3 blynedd ers yr adolygiad diwethaf.

Gofal sy'n Rhoi'r Claf yn Gyntaf

Mae gofal cleifion yn Aderyn yn cael ei gynllunio a'i weithredu gan staff nyrsio ac aelodau o'r tîm amlddisgyblaeth yn unol â'r Dull Rhaglen Ofal.

Roedd yno 3 seiciatrydd ymgynghorol â chyfrifoldeb am ofalu am y cleifion yn Aderyn, gan fod pob claf hyd yma wedi'i atgyfeirio o Ysbyty Llanarth Court a'u bod wedi cadw'r un seiciatrydd ymgynghorol er mwyn sicrhau dilyniant yn y gofal.

Dywedodd y staff fod gan y grŵp cleifion gymysgedd o anghenion llif cyflym a llif araf. Ers agor fel gwasanaeth adsefydlu ym mis Hydref 2006 mae 14 o gleifion wedi cael eu rhyddhau o'r sefydliad.

Adolygwyd sampl o gynlluniau gofal, ffeiliau a ffolderi meddyginiaeth. Roedd y cynlluniau gofal a'r cofnodion eraill a welwyd yn nodi bod cleifion yn derbyn gofal o safon uchel yn gyffredinol ac ystod eang o driniaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn cael budd o ddefnyddio dulliau rheoli therapiwtig ar y ward e.e. technegau dad-ddwysáu a dulliau atal ailwaelu. Roedd cofnodion yn nodi bod gofal nyrsio o ddydd i ddydd o safon uchel, gyda staff yn rhoi o'u hamser i wrando ar gleifion a lle'r oedd yn bosibl i roi sylw i'w pryderon. Roedd perthynas y staff a'r cleifion yn aml yn ymddangos yn gadarnhaol iawn ac roedd y cleifion i'w gweld yn cymryd rhan dda yn y broses o gynllunio'u gofal.

Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn cael cyfle i dderbyn therapïau yn rheolaidd, boed yn unigol neu mewn grŵp, gan Seiciatryddion Ymgynghorol, Seicolegwyr Clinigol, Therapyddion Galwedigaethol a Therapyddion Chwaraeon.

Roedd y cleifion i gyd wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu sy'n goruchwylio'r gwaith o reoli eu hanghenion corfforol. Dywedodd y rheolwr fod cleifion hefyd yn gallu gweld optegwyr, trinwyr traed a deintyddion yn y gymuned yn ôl yr angen.

Diwrnod wedi'i Strwythuro i Gleifion

Dywedodd y staff y cynhelir 'cyfarfod dyddiadur' rhwng y staff a'r cleifion am 9.45 o'r gloch bob bore yn un o'r lolfeydd. Atgoffir y cleifion yn y cyfarfod hwn o'u rhaglen a'u hapwyntiadau am y dydd.

Dywedodd y staff eu bod yn parhau i ddefnyddio'r trefniadau 'amser wedi'i neilltuo ar gyfer cleifion' bob bore dydd Mawrth. Mae hyn yn golygu neilltuo amser penodol bob wythnos lle mae gweithgareddau a gweinyddiaeth arferol ward yn peidio (trosglwyddir galwadau ffôn i'r brif dderbynfa) er mwyn caniatáu i staff nyrsio dreulio amser yn benodol gyda chleifion. Mae hwn yn arfer i'w ganmol.

Gwelwyd tystiolaeth o ddiwrnod wedi'i strwythuro i gleifion. Anogir y cleifion i godi o'u gwelyau a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Gwelwyd tystiolaeth bod cynlluniau gweithgareddau wedi'u sefydlu. Roedd ystod y gweithgareddau therapiwtig yn cynnwys:

- Cyfleoedd hamdden e.e. cerddoriaeth, celf, sgiliau ymarferol, coginio, TG a gwaith coed
- Cyfleoedd addysgol a chleifion yn llwyddo mewn cyrsiau coleg
- Gweithgareddau corfforol e.e. nofio, y gampfa (yn Ysbyty Llanarth Court) a gweithgareddau awyr agored megis cerdded a garddio

Safbwyntiau Cleifion

Câi cyfarfodydd cleifion eu cynnal unwaith yr wythnos yn Aderyn. Mae aelodau staff yn cadw cofnodion y cyfarfodydd, a gwelwyd copïau o'r cofnodion fel rhan o'r arolygiad.

Mae cyngor cleifion gweithredol yn Ysbyty Llanarth Court, a rhoddir cyfle i gleifion Aderyn fynychu. Dywed y datganiad o ddiben mai nod cyngor y cleifion oedd darparu dull ffurfiol er mwyn i reolwyr yr ysbyty a grwpiau proffesiynol eraill allu ymgynghori â'r cleifion ac ymateb i faterion y maent yn eu codi.

Cyfarfu'r Rheolwr Arolygiadau a'r adolygydd â grŵp o gleifion. Ar y cyfan roeddynt yn fodlon â'u gofal ac yn dweud eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff ac yn cael cefnogaeth yr eiriolwr.

Siomedig fu lefel yr ymateb gan y cleifion yn Aderyn i'r arolwg cleifion. Byddai'n well pe gellid annog mwy ohonynt i gymryd rhan.

Trefniadau eiriolaeth

Mae trefniadau i gleifion yn Aderyn cael cefnogaeth eiriolwr trwy Hafal. Mae'r eiriolwr yn dod i'r sefydliad unwaith yr wythnos

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:
Dim

RHEOLI A PHERSONÉL

Canfyddiadau'r Arolygydd:

Rheolwr Cofrestredig

Mr Barrie Crosbie yw'r rheolwr cofrestredig, ac mae wedi'i gofrestru yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000. Mae hefyd wedi bod yn un o brif arweinwyr y sefydliad ers un mlynedd ar bymtheg.

Y Rheolwr Nyrsio Clinigol, Andrea Leslie, sy'n gyfrifol am redeg Aderyn o ddydd i ddydd. Roedd ar gyfnod mamolaeth ar adeg yr arolygiad, ac roedd y brif nyrs yn dirprwyo ar ei rhan.

Unigolyn Cyfrifol

Mr Steven Woolgar, Cyfarwyddwr Polisi a Rheoliadau yn Partnerships in Care, yw'r unigolyn cyfrifol. Mae Mr Woolgar wedi cynnal ymweliadau monitro ansawdd rheolaidd i gydymffurfio â Rheoliad 25, ac anfonwyd adroddiadau i AGIC yn brydlon.

Polisïau Adnoddau Dynol

Darperir cymorth Adnoddau Dynol gan staff yn Ysbyty Llanarth Court.

Mae fframwaith cymhwysedd clinigol wedi ei sefydlu ar gyfer staff nyrsio cofrestredig, sydd yn debyg i NVQ yn yr ystyr ei fod yn gofyn am dystiolaeth i gefnogi lefelau cymhwysedd mewn ymddygiad. Mae'r fframwaith cymhwysedd clinigol yn cael ei gysylltu â'r cyfraddau cyflog, a chyflawnir lefelau uwch drwy dystiolaeth o gymhwysedd a thrwy gystadlu am swyddi.

Personél

Gwelwyd tystiolaeth bod tîm y staff ar y cyfan yn ymroddedig a chydwybodol wrth eu gwaith. Roedd yn ymddangos bod nifer digonol o staff. Dywedwyd bod bwriad i gynyddu'r ddarpariaeth gwaith cymdeithasol o'r hyn sy'n cyfateb i 0.5 aelod o staff amser llawn i swydd amser llawn.

Goruchwyliaeth a hyfforddiant

Darperir hyfforddiant trwy'r adran hyfforddiant yn Ysbyty Llanarth Court. Darperir hyfforddiant ar reoli trais ac ymddygiad ymosodol. Dywedodd y staff y darperir hwn cyn gynted ag y bo modd ar ôl ymuno â'r gwasanaeth a dywedwyd y rhoddir hyfforddiant i ddiweddaru gwybodaeth unwaith y flwyddyn.

Dywedwyd y dylai'r broses werthuso nodi pa hyfforddiant sydd ei angen. Dylai'r broses oruchwylio wedyn sicrhau y caiff yr anghenion hyn eu diwallu.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
0708/4 Rhaid i'r unigolion cofrestredig sicrhau bod dulliau ar gael i fonitro bod pob aelod o staff yn cynnal eu datblygiad proffesiynol ac yn cynnal a datblygu eu cymwyseddau, gan gynnwys staff meddygol anymgynghorol.	31 Awst 2008	Rheoliad 17(2) Safon C9

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:
Dim

RHEOLI CWYNION

Canfyddiadau'r Arolygydd:
Rheoli Cwynion Y rheolwr cwynion yn Ysbyty Llanarth Court sy'n ymdrin â chwynion nad oes modd eu datrys yn Aderyn. Roedd cofnod o un gŵyn ers yr arolygiad diwethaf, a hynny gan un claf yn cwyno ynglŷn ag ymddygiad claf arall. Mae AGIC yn fodlon bod gweithdrefnau priodol wedi'u sefydlu i reoli cwynion. **Gwybodaeth am gwynion** Roedd yr unigolyn cofrestredig wedi paratoi fersiwn hawdd ei ddarllen a fersiwn sain o'r wybodaeth ar gyfer cleifion, teuluoedd a/neu ofalwyr er mwyn cynorthwyo'r rhai â lefelau llythrennedd is fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
0607/5 Rhaid cael gwybodaeth ar gyfer cleifion a'u perthnasau sy'n rhoi sylw dyledus i gefndir diwylliannol ac ieithyddol ac anableddau'r cleifion (yn ogystal â'u rhyw, eu crefydd a'u tarddiad ethnig).	1 Medi 2007	Rheoliadau 15(4)b a 2 Safonau C1.4 ac C17

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:
Dim

SAFLE, CYFLEUSTERAU AC OFFER

Canfyddiadau'r Arolygydd:

Yn Allanol

Mae Aderyn wedi ei leoli mewn sawl erw o gefn gwlad coediog. Mae gerddi aeddfed o amgylch y tŷ. Gall cadeiriau olwyn fynd i mewn i'r prif adeilad trwy'r lolfa deledu os oes angen.

Darperir gwasanaethau Aderyn mewn tŷ mawr carreg sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Cychwynnodd y gwasanaeth cyfredol ar 20 Hydref 2006, ar ôl adnewyddu'r sefydliad yn llwyr. Mae'n adeilad eang ac mae'r gwaith addurno yn daclus. Mae gan yr holl ystafelloedd yn rhan hŷn yr adeilad nenfwd uchel a ffenestri mawr. Mae'r ystafelloedd yn yr estyniad yng nghefn yr adeilad yn fwy modern ac yn llai o faint, ond mae'r rhain hefyd wedi'u cynllunio a'u trefnu'n briodol i ddarparu gwasanaeth adsefydlu.

Roedd y dodrefn a'r carpedi trwy'r sefydliad cyfan naill ai newydd eu prynu neu newydd eu glanhau fel rhan o'r gwaith adnewyddu. Roedd pobman yn olau a glân.

Arddangosir pob tystysgrif yn briodol yn y sefydliad.

Mannau cymunedol

Mae'r brif fynedfa yn arwain at gyntedd mawr lle ceir grisiau, a drysau i'r ddwy lolfa fawr, yr ystafell fwyta, swyddfeydd y nyrsys ac ystafell y meddyg. Ceir ystafell wydr fawr gyda gemau a bwrdd snwcer ac ati.

Ceir 17 o ystafelloedd gwely sengl y'n amrywio o ran maint ac arddull, ac mae digonedd o le yn rhai ohonynt. Mae cyfleusterau en suite ym mhob un ohonynt.

Ceir nifer digonol o gyfleusterau ymolchi a thoiledau trwy'r sefydliad, gan gynnwys cyfleusterau ar gyfer pobl anabl / cadeiriau olwyn.

Mae'r mannau eraill yn cynnwys:

- Cegin therapi galwedigaethol fawr. Dywedodd y staff mai'r bwriad oedd adnewyddu'r gegin hon ym mis Ebrill 2008 i roi corneli cegin llai o fewn yr un ystafell er mwyn i fwy nag un claf allu gweithio'n annibynnol yno.
- Ystafell ysmygu i'r cleifion heb fawr o ddodrefn. Mae drws i fynd allan yno hefyd, i annog pobl i beidio â threulio gormod o amser yn yr ystafell hon.
- Ystafell ddiodydd (ystafell gyfweld oedd hon ar adeg yr arolygiad diwethaf) ger y brif fynedfa lle mae'r cleifion yn gallu paratoi diodydd oer a phoeth
- Ystafell aml-ffydd sydd wedi'i haddurno mewn ffordd ystyriol. Mae'r caplan yn ymweld ddwywaith yr wythnos.
- Swyddfeydd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Y Gegin ac Arlwyo

Mae cegin fawr ar y safle ar gyfer paratoi'r prydau bwyd i gyd, a cheir digon o le storio a chyfleusterau oergell ynddi. Caiff y gegin ei harolygu'n rheolaidd gan adran iechyd yr amgylchedd yr Awdurdod Lleol.

Dechreuwyd defnyddio bwydlen dreigl ac roedd yn cael ei datblygu gyda chyfraniad y cleifion. Mae'r prif bryd bwyd yn cael ei weini yn hwyrach yn y dydd ers yr arolygiad diwethaf. Dywedodd y staff fod llawer llai o fwyd yn cael ei wastraffu o ganlyniad. Dywedodd y cleifion y siaradwyd â hwy yn ystod yr arolygiad eu bod yn rhoi adborth am yr arlwyo a'r broses o gynllunio bwydlenni.

Arddangosir bwydlen y dydd wrth fynedfa'r ystafell fwyta. Dywedodd cleifion a'r staff bod pobl yn fodlon iawn ar y gwasanaeth arlwyo yn Aderyn.

Cynnal a Chadw ac Addurno

Mae'r tîm cynnal a chadw, a leolir yn Ysbyty Llanarth Court, yn darparu gwasanaeth cynnal a chadw ac atgyweirio. Mae cynllun parhaus wedi'i sefydlu i gynnal a chadw'r safle. Tynnwyd sylw at y canlynol ar adeg yr arolygiad:

1. Roedd angen handlen newydd yn un o'r ystafelloedd ymolchi.
2. Roedd angen selio ystafell y clinig rhag yr ystafell ysmygu.
3. Roedd y golau yn y lolfa deledu a'r lolfa i'w weld yn wan.

Mae contractau wedi'u sefydlu ar gyfer gwaredu gwastraff cyffredinol, fferyllol a chlinigol.

Adeiladau Allanol / Gerddi

Mae mannau i roi golch allan, gardd amgaeedig a gardd lysiau a ffrwythau sydd wedi ennill ei phlwyf. Gwelwyd tystiolaeth fod grŵp garddwriaethol wedi'i sefydlu.

Bwthyn

Ceir bwthyn y tu ôl i'r prif adeilad. Defnyddiwyd hwn i gynnal gweithgareddau a chyfarfodydd.

Ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, roedd AGIC yn ystyried cais i amrywio amodau'r cofrestriad i gynnwys dau fflat 'cam i lawr' yn y bwthyn. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gleifion roi cynnig ar fyw'n fwy annibynnol fel rhan o'r broses o gynllunio ar gyfer eu rhyddhau.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
0708/6 Rhaid darparu cynllun gweithredu i roi adroddiad / mynd i'r afael â'r 5 pwynt cynnal a chadw a nodwyd ar y diwrnod, fel rhan o'r ymateb i'r adroddiad hwn.	31 Awst 2008	Rheoliad 24(2)a Safon C19

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
0809/1 Rhaid selio ystafell y clinig rhag i fwg fynd i mewn iddi o'r ystafell ysmygu drws nesaf.	30 Mai 2009	Rheoliad 24(2) Safon C19.9
0809/2 Rhaid i lefel y golau yn y lolfeydd fodloni safonau CIBSE.	30 Mai 2009	Rheoliad 24(2) Safon C19.5

Argymhellion arfer da:
Dim

RHEOLI RISG

Canfyddiadau'r Arolygydd:

Polisi Rheoli Risg

Mae prosesau a gweithdrefnau rheoli risg cynhwysfawr wedi'u sefydlu o fewn y sefydliad.

Rheoli Risg

Roedd gweithdrefnau rheoli risg priodol wedi'u sefydlu ar gyfer pob uned yr ymwelwyd â hwy yn ystod yr arolygiad. Mae system hysbysu am ddigwyddiadau wedi'i sefydlu, sy'n bwydo i'r adolygiadau misol.

Roedd yn ymddangos bod risgiau'n cael eu hadnabod ac yn cael sylw fel mater o drefn a'u hadolygu yn rheolaidd, yn y cofnodion a welwyd gan y tîm arolygu. Gwelwyd tystiolaeth bod risgiau'n cael eu cydbwyso'n rheolaidd yn erbyn anghenion a buddiannau'r cleifion, yn enwedig o ran gweithgareddau a thripiau. Er hynny ni welwyd asesiadau rheoli risg ar gyfer gofal corfforol na hunan-ofal yn y cynllun gofal.

Mae'r polisi rheoli risg ar gyfer cadw golwg ar gleifion yn ystod y nos wedi'i ddiweddaru ers yr arolygiad diwethaf. Fel arfer bydd rhywun yn bwrw golwg ar y cleifion bob 2 awr; ond mae hyn yn amrywio yn ôl y risg a'r cynllun gofal, fel y bo'r gofyn.

Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol

Darperir hyfforddiant i staff ar reoli trais ac ymddygiad ymosodol, a chaiff ei ddiweddaru unwaith y flwyddyn.

Mae gwely argyfwng penodol ar gael yn Ysbyty Llanarth Court pe byddai claf angen rheolaeth ddwysach nag y gellir ei darparu yn Aderyn. Defnyddiwyd y gwely unwaith ers agor Aderyn yn 2006.

Rheoli Meddyginiaeth

Mae fferyllfa Lloyds yn cyflenwi meddyginiaeth i Aderyn. Mae technegydd yn ymweld unwaith y mis i adnewyddu stoc ac mae meddyginiaeth yn cael ei chyflenwi bob wythnos.

Nodwyd nifer o faterion yn ystod yr arolygiad diwethaf ac mae'r rhain wedi cael sylw erbyn hyn.

Mae rhai cleifion yn cymryd eu meddyginiaeth eu hunain yn Aderyn. Gwelwyd tystiolaeth yr asesir gallu'r defnyddwyr gwasanaeth i gymryd eu meddyginiaeth eu hunain. Roedd y blychau dosette wedi'u labelu'n gywir ac roedd droriau â chlo arnynt ar gael i storio meddyginiaethau yn yr ystafelloedd gwely.

Deddf Iechyd Meddwl

Ar ôl ei ymweliad, argymhellodd y Comisiwn Deddf Iechyd Meddwl y dylid adolygu'r arfer o beidio â chaniatáu i bobl adael ar ôl 6 o'r gloch yr hwyr. Eglurodd aelodau staff y rhoddir caniatâd i gleifion adael hyd at adegau gwahanol erbyn hyn, yn dibynnu ar adeg y flwyddyn.

Roedd Côd Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl i Gymru a gyhoeddwyd yn 2008 yn cynnwys, yn Atodiad 2, restr o'r polisïau a gweithdrefnau a oedd yn ofynnol er mwyn gweithredu'r Ddeddf. Bydd angen cadarnhad ar AGIC bod y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol wedi'u sefydlu.

Cyswllt â'r Pentref

Sefydlwyd pwyllgor cyswllt â'r pentref oherwydd pryderon a fynegwyd yn y gymuned leol ynglŷn â'r math o wasanaeth a ddarperir a'r peryglon posibl i'r gymuned.

Mae AGIC yn ymwybodol y cynhelir cyfarfodydd rheolaidd er mwyn cynorthwyo i leddfu unrhyw bryderon y gellid eu codi.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
0708/7 Rhaid adolygu'r polisi rheoli risg o safbwynt cadw golwg ar y cleifion yn ystod y nos er mwyn cynnwys hyblygrwydd mewn perthynas â risgiau unigol	30 Medi 2008	Rheoliad 8(1)d, 43 Safon C22, M30
0708/8 Rhaid adolygu a diweddaru'r polisi meddyginiaethau i ystyried sylwadau a wnaed yn yr adroddiad hwn o ran: 1. Sylwadau gan fferyllwyr ynglŷn ag ymdrin â meddyginiaethau'n ddiogel 2. Archwiliad ar gyfer cyffuriau sy'n debygol o gael eu camddefnyddio 3. Atal a rheoli achosion o storio gormod o feddyginiaethau 4. Archwilio dyddiadau y daw meddyginiaethau i ben 5. Monitro'r tymheredd yn yr ystafelloedd triniaeth 6. Camau i'w cymryd pan fo tymheredd yr oergell y tu hwnt i'r tymheredd diogel. 7. Gweithdrefn ar gyfer cael gwared ar feddyginiaethau yn ddiogel.	31 Awst 2008	Rheoliad 14(5) Safon M10, M17

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
0809/3 Rhaid i'r unigolyn cofrestredig gadarnhau i AGIC bod y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol wedi'u sefydlu fel sy'n ofynnol dan Gôd Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl i Gymru	31 Mai 2009	Rheoliad 8(1), 14(1)b Safon C7, M41

Argymhellion arfer da:
Dim

RHEOLI GWYBODAETH A CHOFNODION

Canfyddiadau'r Arolygydd:

Deddf Diogelu Data

Roedd polisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu ar gyfer rheoli gwybodaeth. Roedd pob aelod o staff a gyfwelwyd yn ymwybodol o gyfrinachedd a'r angen i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

Cofnodion Staff

Cedwir cofnodion staff Aderyn yn Ysbyty Llanarth Court ac roedd y rhai a arolygwyd yn bodloni gofynion y rheoliadau.

Cofnodion Cleifion

Archwiliwyd sampl o gofnodion y cleifion. Nodwyd bod y cofnodion a welwyd wedi eu trefnu'n dda ac yn cydymffurfio â gofynion y safonau gofynnol cenedlaethol. Nodwyd bod rhestrau eiddo yn arbennig o fanwl a chyfredol.

Roedd asesiadau perfformiad corfforaethol ac asesiadau risg mewn nodiadau achosion yn drylwyr ac wedi eu hysgrifennu'n dda. Roedd cynlluniau triniaeth yn ymddangos yn drylwyr a phriodol. Gwelwyd tystiolaeth o safbwyntiau amlddisgyblaethol rheolaidd, a oedd hefyd wedi eu cofnodi'n dda. Roedd tystiolaeth hefyd bod cydbwysedd yn cael ei gyflawni rhwng yr angen am weithgareddau a'r risgiau a oedd yn codi yn eu sgîl.

Wrth archwilio ffurflenni seibiant Adran 17, gwelwyd bod angen gwella nifer o feysydd:

- Roedd un heb ei llofnodi.
- Ni nodwyd dyddiad adolygu ar bob ffurflen.
- Rhaid sicrhau bod newidiadau yn cael eu diweddaru ar nodiadau'r tîm amlddisgyblaeth a'r ffurflen seibiant fel eu bod yn cyd-fynd â'i gilydd.

Roedd gweithgor wedi'i sefydlu er mwyn mynd i'r afael â materion a godwyd yn yr arolygiad blaenorol. Dylid cadw'r canfyddiadau uchod mewn cof hefyd.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
0708/9 Rhaid i'r unigolyn cofrestredig ddisgrifio'r prosesau a sefydlwyd er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau ynghylch recriwtio staff a chofnodion staff	31 Awst 2008	Rheoliad 18 Atodlen 2 Atodlen 3 Rhan II 7 Safon C9

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
0708/10 Rhaid adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau ynghylch seibiant gan ystyried y sylwadau a wnaed yn yr adroddiad hwn.	30 Medi 2008	Rheoliad 8(1) d, dd, e Safon M44

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
0809/4 Rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau y cedwir cofnod priodol o'r holl ofynion dan Adran 17 y Ddeddf Iechyd Meddwl	31 Mai 2009	Rheoliad 20 Safon 32, M44

Argymhellion arfer da:
Dim

YMCHWIL

Canfyddiadau'r Arolygydd:
Mae polisi a gweithdrefn ymchwil wedi'u sefydlu (cyhoeddwyd ym mis Medi 2007) ar gyfer Llanarth Court sy'n bodloni gofynion y rheoliadau ac yn ystyried y Fframwaith Llywodraethu Ymchwil a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Ni thrafodwyd unrhyw brosiectau ymchwil penodol yn ystod yr arolygiad.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol::

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:
Dim

CYNLLUN GWEITHREDU O'R ADRODDIAD

Canfyddiadau'r Arolygydd:
Pwyslais arolygiad ac adroddiad eleni oedd adrodd ar gydymffurfiad â'r argymhellion a wnaed yn flaenorol yng nghyd-destun cydymffurfio â'r safonau a rheoliadau dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'n rhaid cyflwyno cynllun gweithredu manwl ynglŷn â'r 1 gofyniad sy'n parhau i fod heb ei fodloni a'r 4 gofyniad newydd a wnaed o ganlyniad i'r adroddiad hwn, fel y nodir isod.

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
0809/4 Mae'n ofynnol cyflwyno cynllun gweithredu i AGIC sy'n rhoi sylw i'r holl ofynion a wnaed eleni a'r rheiny sy'n parhau i fod heb eu bodloni yn yr adroddiad hwn. Rhaid i'r cynllun gweithredu nodi'n eglur: 1. y gofyniad, 2. y camau i'w cymryd, 3. yr unigolyn sy'n gyfrifol, 4. y dyddiad cwblhau a nodwyd, 5. ac adroddiad o'r sefyllfa ar ddiwrnod llunio'r cynllun gweithredu. 6. Rhaid adolygu'r cynllun bob tri mis a chyflwyno copi i AGIC ar ddiwrnod olaf y trydydd mis hyd nes y bydd pob gofyniad wedi'i fodloni.	31 Mai 2009	Adran 31 (1) Deddf Safonau Gofal 2000 *Caiff yr awdurdod cofrestru, ar unrhyw adeg, ofyn i berson sy'n rhedeg neu'n rheoli sefydliad neu asiantaeth ddarparu unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r sefydliad neu'r asiantaeth y mae'r awdurdod cofrestru yn ei hystyried yn angenrheidiol neu'n ddefnyddiol at ddibenion ei swyddogaethau dan y Rhan hon.*

Enw'r Arolygydd: H Nethercott	**Dyddiad: 6 Mai 2009**
Llofnod yr Arolygydd: H Nethercott.	